



# Wales School Governors' Association Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

and Governor Support Unit

## Llythyr Newyddion



### Nodyn gan y Cadeirydd

Mae'n gyfnod anodd. Mae cyfraddau diweithdra yn codi. Mae'r economi mewn trafferthion o hyd. Beth mae hyn yn ei olygu i ysgolion yn y Fro?

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, bydd Fforwm Cyllidebau Ysgol y Fro yn ystyried y ffigurau a gyflwynir gan Swyddogion y Cyngor, wedi'u seilio ar setliad ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y Cyngor. Caiff argymhellion eu cyfleu i unigolion ariannol y Fro ac yna i'r Cabinet, ac i'r Cyngor llawn yn y pen draw.

Diwygiwyd aelodaeth y Fforwm Cyllidebau ac erbyn hyn, mae'n cynnwys chwe chynrychiolydd sy'n llywodraethwyr ac sy'n pledio'ch achos. Fodd bynnag, rydw i'n parhau i ystyried y broses yn un ddigalon. Nid oes fyth ddigon o arian i bawb. Mae'r Fro yn parhau i fod ar waelod y rhestr pan gaiff arian ei ddsbarthu. Mae bron pob awdurdod lleol arall yng Nghymru yn gwario mwy o arian y flwyddyn fesul disgybl ar addysgu eu plant nag y mae'r Fro yn ei wneud. Dyma fu'r sefyllfa ers dros ddegawd.

Mae'r rhesymau yn gymhleth ac fe'u trafodwyd gryn dipyn, ac nid oes

modd eu datrys yn hawdd. Nid yw'r Fro yn gwario cymaint ar addysg ag y mae fformiwlâu y Cynulliad yn awgrymu y dylai. Gall y dreth gyngor godi, os bydd hynny'n dderbyniol yn wleidyddol, ond byddai'n rhaid i rywfaent o'r arian ddod trwy dorri gwasanaethau eraill o hyd, y maent dan bwysau difrifol hefyd.

Rhaid i'n Cynghorwyr sicrhau cydbwysedd anodd. Nid ydw i'n teimlo'n eiddigeddus ohonynt. Mae modd i chi eu helpu gyda'u gwaith trwy esbonio effaith y cyfyngiadau ariannol difrifol ar eich ysgol chi, i'ch Cynghorydd lleol. Dywedwch wrthynt am yr hyn nad ydych yn ei wneud gan nad oes gennych yr arian. Dywedwch wrthynt am yr effaith ar y plant yn eich gofal.

Datblygwyd Gweledigaeth 2015 y Fro ar gyfer Addysg. Mae'r dyheadau'n ardderchog ac rydym oll yn gefnogol ohonynt. A oes modd i ni eu cyflawni gyda'r arian y byddwn yn ei gael?

**Martin Price**

**Cadeirydd VSGA ac  
Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr,  
Ysgol Uwchradd Babyddol St  
Richard Gwyn, y Barri**

### Canlyniad Ymgynghoriad VSGA

Ar ddechrau'r tymor hwn, ysgrifennodd yr Uned Cefnogi Llywodraethwyr (GSU) at bob corff llywodraethu er mwyn ymgynghori ynghylch diwygiad arfaethedig i Gyfansoddiad VSGA. Penderfynodd y cyrff llywodraethu gymeradwyo'r newid trwy gyfrwng mwyafrif.

Mae'r newid y cytunwyd arno yn golygu mai 2 flynedd fydd hyd y cyfnod aelodaeth ar y Pwyllgor. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle a'r amser i aelodau'r Pwyllgor gyflawni rôl llawer yn fwy effeithiol yn y Pwyllgor.

Hoffai Pwyllgor Rheoli VSGA a GSU ddiolch i'r holl gyrff llywodraethu hynny a wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad.

**Jeremy Morgan**

**Uned Cefnogi Llywodraethwyr**

### Rhifyn 18 Tymor Hydref 2009

#### Pwyntiau arbennig o ddiddordeb:

- Ffurfiwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lansiodd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 llywodraethwr etholedig ynghyd â 2 gynrychiolydd etholedig sy'n llywodraethwyr sy'n rhieni

#### Sefydlwyd VSGA i:

- Hwrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hwrwyddo partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid i sicrhau adnoddau digonol i ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud â llywodraethu ysgolion a rheoli a darparu adnoddau i ysgolion, i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

# Ysgolion Bro (YB) ym Mro Morgannwg

## Cefndir

Mae'r Wlad sy'n Dysgu yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod ysgolion wrth wraidd eu cymunedau.

*'Rydym yn dymuno gweld perthynas lawer agosach rhwng ysgolion a'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. Rydym yn dymuno gweld ysgolion yn cyflawni rôl adnodd cymunedol – nid yn unig yn ystod oriau ysgol, ond y tu hwnt i oriau ysgol ac yn ystod y gwyliau hefyd. Rydym yn eu gweld fel rhan annatod o'r broses o greu gallu cymunedol – gan gynnig sail ar gyfer darparu, nid yn unig addysg a hyfforddiant, ond ystod o wasanaethau eraill hefyd fel cymorth i deuluoedd, iechyd a hyrwyddo menter'.*

## Y Wlad sy'n Dysgu 2001

Mae'r dyheadau hyn yn cyd-fynd yn agos gyda blaenoriaethau Cyngor Bro Morgannwg, a nodwyd yng nghynllun corfforaethol y strategaeth gymunedol a'r cynlluniau perthnasol ar gyfer plant a phobl ifanc, y maent oll yn ceisio gwella ansawdd bywyd a gwella cyfleoedd bywyd plant, pobl ifanc ac oedolion ar draws y sir.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn paratoi cyngor ac arweiniad er mwyn datblygu ysgolion bro yng Nghylchlythyr Rhif 34/2003 (2003). Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r ffordd y gall partneriaid ac ysgolion gydweithio er mwyn datblygu'r dull gweithredu hwn, a'r manteision y mae'n gallu eu cynnig i'r holl bartion. Yn ogystal, mae'r polisi yn amlygu'r pwerau sydd gan Gyrrff Llywodraethu dan y ddarpariaeth a wnaethpwyd o fewn Deddf Addysg 2002, sy'n rhoi'r grym i Gyrrff Llywodraethu i ddatblygu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion eu disgyblion, rhieni a'r gymuned.

Gall datblygu dull gweithredu Ysgolion Bro (YB) ddelio â nifer o anghenion o fewn ysgolion a chymunedau, gall tîm YB helpu ysgolion i gyflawni hyn mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys creu cysylltiadau gyda mudiadau cymunedol, rhannu arfer da a manteisio ar gyllid.

## Gweithgareddau a Digwyddiadau yn y Fro

Mae'r tîm Ysgolion Bro ym Mro Morgannwg wedi bod yn gweithio gydag ysgolion a chymunedau ym Mro Morgannwg er mwyn creu a hyrwyddo cyfleoedd i blant, pobl ifanc a'r gymuned ehangach, ac mae wedi meithrin partneriaethau gwaith llwyddiannus gydag amrywiaeth eang o sefydliadau er mwyn cynorthwyo'r gwaith yn unol â'r Strategaeth Ysgolion Bro.

## Clybiau Pyramid

Ymunodd AC y Fro, Jane Hutt, gyda phlant a gwirfoddolwyr o Ysgolion Llanilltud Fawr er mwyn dathlu llwyddiant y Clwb Pyramid sy'n cael ei redeg yn ysgolion cynradd y clwstwr. Mae'r prosiect peilot hwn yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr ac yn cael ei gydlynu gan y Rheolwr Ysgolion Bro, ac mae wedi bod yn gweithio gydag 17 o wirfoddolwyr, gan wneud gwahaniaeth i 39 o blant dros y flwyddyn ddiwethaf. Gan weithio gydag ysgolion, sgriniwyd y plant ar draws blynyddoedd 3 a 4, gyda'r rhai a oedd yn dangos anghenion cymdeithasol uwch yn mynychu'r clybiau ar ôl ysgol.

Ethos y clwb Pyramid yw meithrin hyder ac annog cyfeillgarwch ymhlith aelodau'r gr p, trwy eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyl sy'n rhoi hwb i'w hunan-barch.

Mae llwyddiant y peilot hwn wedi amlygu effaith profiadau cadarnhaol ar les plant ac mae'n cynorthwyo agenda Ysgolion Iach. Cynorthwywyd y peilot gan gr p llywio aml-asiantaeth, y mae bellach yn ceisio sicrhau cyllid er mwyn cynnig hwn i ragor o ysgolion yn y Fro.

## MEND

Mae M.E.N.D (Meddwl, Ymarfer Corff, Maeth, Ewch amdani!) yn rhaglen ffordd o fyw gymunedol aml-ddisgyblaethol a gynlluniwyd ar gyfer plant rhwng 7 ac 13 oed y maent dros bwysau neu'n ordew. Mae'r rhaglen yn gweithio gyda'r rhiant a'r plentyn er mwyn ystyried sut y maent yn byw ar hyn o bryd o ran iechyd a ffitrwydd, a pha feysydd y byddent yn dymuno'u newid. Nid dosbarth colli pwysau yw hwn. Caiff y rhaglen ei hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i cynhelir yn Ysgol Gyfun Bryn Hafren ar hyn o bryd. Mae'r rhaglen hon yn denu teuluoedd o bob cwr o Fro Morgannwg ac mae wedi gweithio gyda 30 o deuluoedd hyd yn hyn.

## Gweithdai Pontio'r Cenedlaethau

Fel rhan o'r Wythnos Addysg Oedolion yn y Fro, 11 i 15 Mai 2009, bu plant ysgol a rhieni yn dysgu am focsys bwyd iach gyda'i gilydd. Llwyddodd gr p Cogyddion Cymru (sy'n cynnwys Ysgolion Iach, Ysgolion Bro, Clybiau Plant Cymru a Dietegydd Cymunedol) i sicrhau cyllid gan NIACE i gynnal Gweithdai Pontio'r Cenedlaethau. Cyflwynwyd y rhain mewn pum ysgol yn y Fro.

## Gwirfoddolwyr y Mileniwm yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

Gyda'i gilydd, mae grŵp o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg wedi gwirfoddoli dros 1000 awr o'u hamser fel rhan o gynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm ar gyfer prosiectau niferus sy'n cynorthwyo aelodau iau cymuned yr ysgol.

Bu'r bobl ifanc yn gwirfoddoli ar gyfer prosiectau megis cynlluniau darllen, mentora cymheiriaid, hyfforddiant gwaith ieuencid, 'swogio Llangrannog', stiwardio Eisteddfodau, cynorthwyo'r Clwb Ieuencid Cymraeg yng Nghanolfan Hamdden Penarth, clybiau tenis bwrdd, clybiau pêl-droed a llawer mwy.

## Digwyddiadau Cymunedol

Mae gweithio mewn partneriaeth gydag eraill wrth wraidd gwaith YB yn y Fro. Bu'r tîm yn gweithio gyda grwpiau a gwasanaethau cymunedol er mwyn hyrwyddo cyfleoedd i blant, pobl ifanc a chymunedau i gynnal 'What's in it for you?' Cynhaliwyd y digwyddiad hwn yn y Barri ym mis Mawrth 2009 ac am y tro cyntaf, roedd y gymuned wedi gweld digwyddiad a oedd yn cynnwys gwybodaeth a gweithgareddau ar gyfer yr holl grwpiau oedran a hysbysebwyd, ac a anelwyd at blant, pobl ifanc ac oedolion ar draws y Fro.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Lynne Osborne, Rheolwr Ysgolion Bro**

Ffôn: 01446 709560

E-bost: [losborne@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:losborne@valeofglamorgan.gov.uk)

## Y Marc TGCh yn Ysgolion Bro Morgannwg

Mae'r holl ysgolion ym mro Morgannwg yn gweithio tuag at sicrhau achrediad y Marc TGCh. Er mwyn sicrhau'r Marc TGCh, bydd ysgolion yn gweithio ar y Fframwaith Hunan-adolygu (SRF) a ddatblygwyd gan BECTa (British Educational and Communications Technology Agency).

Mae SRF yn offeryn ar-lein sy'n helpu ysgolion i nodi lefel eu haeddfedrwydd o ran eu defnydd o TGCh. Mae'n cynnwys set o ddisgrifwyr sy'n galluogi ysgolion i weld lle y bydd modd iddynt sicrhau bod y defnydd a wneir o TGCh yn fwy effeithiol.

Trwy ddefnyddio SRF, bydd ysgolion yn gallu sicrhau persbectif ehangach am faterion gan gynnwys staff, disgyblion a budd-ddeiliaid eraill fel rhieni a llywodraethwyr wrth iddynt wneud penderfyniadau ynghylch y defnydd a wneir gan yr ysgol o TGCh. Mae'r broses gyfan yn drylwyr ac mae'n gallu cymryd hyd at ddwy flynedd ar gyfer ysgolion.

Rhennir y fframwaith yn wyth elfen.

1. **Arweinyddiaeth a Rheolaeth**
2. **Cwricwlwm**
3. **Dysgu ac addysgu**
4. **Asesu**
5. **Datblygiad Proffesiynol**
6. **Ymestyn cyfleoedd i ddysgu**
7. **Adnoddau**
8. **Effaith ar ganlyniadau Disgyblion**

Rhennir pob elfen yn llinynnau, sy'n rhannu i fod yn agweddau gwahanol. Pan fydd ysgolion wedi cyrraedd y safon genedlaethol o ran effeithiolrwydd TGCh, a ddynodir gan logo ym mhob agwedd, bydd modd iddynt wneud cais i gael eu hasesu ar gyfer achrediad y Marc TGCh.

Cynhelir yr asesiad gan aseswr allanol ac mae'n cynnwys ymweliad hanner diwrnod gyda'r ysgolion, sy'n cynnwys ystyried tystiolaeth, taith o gwmpas yr ysgol a chyfweliadau gyda'r holl fudd-ddeiliaid gan gynnwys rheolwyr uwch, staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr.

Hyd yn hyn, mae saith ysgol ym Mro Morgannwg wedi sicrhau achrediad y Marc TGCh – Bryn Hafren, Rhws, Ysgol y Babanod Dinas Powys, Ysgol Gynradd y Barri, Ysgol Gyfun Bro Morgannwg, Ysgol Gynradd Cogan, ac Ysgol Gyfun Stanwell.

Ysgol Gyfun Bro Morgannwg oedd yr Ysgol Gyfun Cyfrwng Cymraeg gyntaf yng Nghymru i sicrhau'r wob, ac fe'i cynhwyswyd mewn rhestr fer ar gyfer Gwobr Rhagoriaeth TGCh yn 2009.

**Jendy Hillier**

Arweinydd Tîm Strategaeth ar gyfer Datblygu'r Cwricwlwm

Aseswr Marc TGCh

Gwasanaeth Gwella Ysgolion

Ffôn: 01446 709592

e-bost: [jhillier@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:jhillier@valeofglamorgan.gov.uk)

# Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion ac Ymgyrch Brechiad HPV



Yn ystod blwyddyn ysgol 2008-09, cyflwynwyd brechiad HPV, sy'n ceisio gostwng cyfraddau canser ceg y groth, i ferched blwyddyn 8 mewn ysgolion Uwchradd. Nodwyd y gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion fel y gweithwyr iechyd proffesiynol allweddol a fyddai'n cyflwyno'r rhaglen hon mewn ysgolion. Mae'r rhaglen yn golygu bod angen trefnu 3 ymweliad gyda'r ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol, er mwyn cwblhau cwrs y brechiadau.

Mae'r gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion wedi cyflogi tîm bach o nyrsys er mwyn cyflwyno'r rhaglen, ynghyd â'u Nyrsys Ysgol presennol.

Yn ystod y flwyddyn ysgol ddiwethaf, llwyddwyd i gyflwyno'r brechiad yn yr holl ysgolion ar draws y Fro i oddeutu 800 o ferched ifanc. Yn dilyn llwyddiant y flwyddyn gyntaf, penderfynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y byddai'r rhaglen hon yn cael ei chynnig i ferched ym mlynnyddoedd 10, 11, 12 a 13 hefyd, yn ogystal â merched ym mlwyddyn 8.

Fel y gallwch ei ddychmygu, nid yw cynnal y 3 ymweliad sy'n angenrheidiol er mwyn cwblhau'r cwrs ar gyfer pob merch yn dasg hawdd, ac o ystyried y niferoedd dan sylw, bu'n rhaid i ni gynllunio ymweliadau i ysgolion ar sawl achlysur. Fel gwasanaeth, rydym yn ymwybodol o'r effaith y mae hyn yn ei gael ar ysgolion a hoffem fynegi ein diolch i'r holl Ysgolion Uwchradd am eu help a'u cymorth wrth i ni gyflawni'r dasg bwysig hon.

Mae'r rhaglen hon wedi arwain at lwyth gwaith ychwanegol ar gyfer ein nyrsys ysgol ac rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith y gallai ysgolion Cynradd deimlo effaith hyn hefyd. Unwaith eto, hoffem ddiolch i chi am eich dealltwriaeth ar yr adeg brysur hon. O'r flwyddyn nesaf, byddwn yn dychwelyd i'r rhaglen sylfaenol o gynnig brechiad HPV ym mlwyddyn 8 yn unig.

Mae'r gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion yn wasanaeth hyblyg sy'n gallu ymateb i anghenion y plentyn oedran ysgol. Mae modd cysylltu â phob Nyrs Ysgol trwy eu hysgolion penodedig, sy'n gallu eich hysbysu o'u lleoliad a'u manylion cyswllt os bydd angen i chi siarad gyda nhw.

**Cydllynwyr Nyrsys Ysgol;**

mae modd cysylltu â Caroline Jones a Kay Holmes ar 02920 371221.

Nyrs Uwch: Nuala Mahon - 02920 536800

## Sesiynau Hyfforddiant i Lywodraethwyr – Tymor y Gwanwyn 2010

Bydd pob llywodraethwr yn cael eu Rhaglen Hyfforddiant i Lywodraethwyr Tymor y Gwanwyn yn gynnar ym mis Ionawr. Isod, nodir manylion y cyrsiau a gynhelir.

Yn ogystal, rhoddir gwybodaeth am Gynhadledd Flynyddol VSGA/GSU i Lywodraethwyr. Dosbarthir gwybodaeth bellach am y Gynhadledd yn gynnar yn ystod Tymor y Gwanwyn.

Os hoffech archebu lle ar unrhyw rai o'r sesiynau hyfforddiant, dylech gysylltu â'r Uned Cefnogi Llywodraethwyr ar 01446 709106/8 neu anfon e-bost at: [governors@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:governors@valeofglamorgan.gov.uk)

**Jeremy Morgan**

Uned Cefnogi Llywodraethwyr

Dyddiad	Cwrs	Amser	Lleoliad
Llun 3 Chwefror	Gweithdrefnau ar gyfer Dileu Swyddi	7.00-9.00pm	Gwesty Mount Sorrel, Y Barri
Iau 11 Chwefror	Hunanwerthuso, Monitro ac Adolygu	7.00-9.00pm	Gwesty Mount Sorrel, Y Barri
Llun 22 Chwefror	Hyfforddiant Cynefino ar gyfer Llywodraethwyr Newydd	6.30-8.30pm	Gwesty Mount Sorrel, Y Barri
Sadwrn 6 Mawrth	Cynhadledd Flynyddol VSGA	9.00-1.00pm	Gwesty Vale of Glamorgan
Mercher 10 Mawrth	Data ynghylch Perfformiad Ysgol	7.00-9.00pm	Gwesty Mount Sorrel, Y Barri
Mawrth 23 Mawrth	Cyllidebau Ysgolion/Cyllid	7.00-9.00pm	Gwesty Mount Sorrel, Y Barri
Llun 14 Ebrill	Rheoli Perfformiad	6.30-8.00pm	Gwesty Mount Sorrel, Y Barri
Mercher 5 Mai	Iechyd a Diogelwch	7.00-9.00pm	Gwesty Mount Sorrel, Y Barri

## Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

Unwaith eto, mae'r Cyngor yn cydweithio gyda'r elusen wrth-hiliol, Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, er mwyn codi ymwybyddiaeth o hiliaeth mewn cymdeithas ymhlith pobl ifanc. Gan bod pêl-droed yn cael cryn ddylanwad ar bobl ifanc, nod Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yw defnyddio pêl-droed fel man cychwyn er mwyn delio â hiliaeth, sy'n fater difrifol.

Rydym yn cynnig y cyfle i ysgolion fanteisio ar weithdy a fydd yn cynnwys gwerth 1 awr o hyfforddiant pêl-droed ac 1 awr o weithdy gwrth-hiliol ar gyfer hyd at uchafswm o 30 disgybl.

Cynlluniwyd y gweithdai ar gyfer disgyblion cynradd ym mlynnyddoedd 5 a 6 yn benodol, a'r grwpiau iau mewn ysgolion uwchradd, a bydd pecyn addysg yn cael eu darparu gyda nhw.

Mae nodau'r gweithdai fel a ganlyn:

- Sicrhau bod pobl ifanc yn gyfarwydd ag achosion, canlyniadau a ffurfiau hiliaeth, a chyfleu amrediad o sgiliau iddynt a fydd yn eu galluogi i herio hiliaeth;
- Galluogi pobl ifanc i feithrin perthnasoedd da ac i barchu'r gwahaniaethau rhwng pobl, beth bynnag fo hil, ethnigrwydd, cenedligrwydd neu grefydd unigolyn;
- Helpu pobl ifanc i baratoi ar gyfer cyflawni rôl gweithredol fel dinasyddion mewn cymdeithas sy'n mynd yn fwyfwy aml-ddiwylliannol, a'u paratoi ar gyfer profiadau bywyd;
- Darparu adnodd addysgu hawdd i'w ddefnyddio i athrawon, er mwyn eu galluogi i addysgu'r uchod.

Bydd y sesiwn hyfforddiant pêl-droed yn rhoi pwyslais ar weithio mewn tîm, ffyrdd o fyw iach a chwarae teg. Bydd pob person ifanc sy'n mynychu'r gweithdy yn cael adnoddau gwrth-hiliol ac mae gan yr elusen wobrau hefyd a ddosbarthir yn aml, gan gynnwys bandiau arddwrn, cylchgronau, posteri, tocynnau gemau, posteri wedi'u llofnodi gan bêl-droedwyr a pheli troed bach.

Os hoffech gysylltu â Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth er mwyn trefnu gweithdy, mae modd i chi eu ffonio ar 029 2034 0422 neu anfon e-bost at [damon@theredcardwales.org](mailto:damon@theredcardwales.org)

Yn ogystal, mae cystadleuaeth flynyddol i ysgolion Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi cychwyn unwaith eto, a bydd nifer fwy o ysgolion ym Mro Morgannwg yn cael cyfle i gyfrannu wrth i'r ymgyrch ddechrau cyflwyno gweithdai yn ystod y misoedd i ddod. Mae enillwyr blaenorol wedi cyfarfod ag unigolion adnabyddus fel Ryan Giggs, Rio Ferdinand a Thierry Henry.

Mae modd gweld manylion am y gystadleuaeth trwy droi at [www.theredcard.org](http://www.theredcard.org)

**Tim Greaves**

Adran Cydraddoldeb Cyngor y Fro

Ffôn: 01446 709446

E-bost: [TSGreaves@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:TSGreaves@valeofglamorgan.gov.uk)



Enillydd cystadleuaeth DCCH i ysgolion.

# Athrawon y Fro yn dychwelyd i'r ystafell ddosbarth (yn yr awyr agored)!!!

Wrth i'r rhan fwyaf o athrawon yn y Fro baratoi ar gyfer y disgyblion newydd ar ddiwrnod cyntaf y tymor, bu athrawon o Ysgol Iau St Helens, Ysgol Gynradd St Joseph a St Richard Gwyn yn datblygu eu sgiliau ym maes Gweithgareddau Antur yng Nghanolfan Ieuencid y Bont-faen.

Fel rhan o fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (P.E.S.S.) y Fro, manteisiodd athrawon a staff cymorth dysgu o'r dair ysgol ar ddiwrnod pan oedd yr ysgolion ar gau er mwyn dysgu am Gyfeiriannu, Meithrin Tîm, Tramwyo, Sgiliau Gwersylla, Datrys problemau ac Ymdeithio, sy'n addas i'w defnyddio gyda'u disgyblion. Ar ôl diwrnod prysur o greu llochesi, codi pebyll a rhoi cynnig ar y wal ddringo, roedd y staff yn awyddus iawn i roi cynnig ar rai o'r gweithgareddau gyda'u disgyblion yn ôl yn yr ysgol.

**"Roeddwn yn dwli ar y cwrs hwn! Dysgais lawer a chefais gymaint o hwyl."**

**"Rwy'n edrych ymlaen i fynd yn ôl i'r ysgol a defnyddio'r adnoddau gyda fy nosbarth."**

(Ymatebion Athrawon)

## PE & School Sport AG a Chwaraeon Ysgol

Raising standards – Extending opportunities  
*Codi safonau – Ehangu cyfleoedd*

Er mwyn helpu athrawon i gyflwyno'r gweithgareddau, rhoddwyd cynllun gwaith a phecyn adnoddau a oedd yn cynnwys cardiau hyfforddi i bob ysgol, er mwyn iddynt eu defnyddio yn yr ysgol er mwyn gwella'r addysgu a'r dysgu.

Mae'r ysgolion yn rhan o Ganolfan Ddatblygu P.E.S.S., un o blith chwe chanolfan o'r fath yn y Fro sy'n ceisio codi safonau yn y cwricwlwm Addysg Gorfforol. Am wybodaeth bellach ynghylch P.E.S.S., cysylltwch â:

**Lesley Dancey**

P. E. & School Sport Co-ordinator, Vale of  
Glamorgan Council

Cydlynedd A.G. a Chwaraeon Ysgol, Cyngor Bro  
Morgannwg





## Cynllun Gwên De Cymru



Nod ymgyrch Cynllun Gwên Llywodraeth Cynulliad Cymru yw gwella iechyd deintyddol plant ifanc. Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, mae'r lefelau clefyd deintyddol ymhlith yr uchaf yn Ewrop. Cynhelir yr ymgyrch yn Ne

Cymru gan Wasanaeth Deintyddol Cymunedol BILL Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae timau Deintyddol Cymunedol yn gweithio gyda rhieni, athrawon a disgyblion er mwyn gweithredu cynlluniau brwsio dan oruchwyliaeth mewn dosbarthiadau meithrin, derbyn a blwyddyn 1 ac mewn ysgolion gofal arbennig. Bydd plant yn cymryd rhan mewn sesiynau techneg brwsio dannedd sych a gynhelir yn yr ystafell ddosbarth unwaith y dydd, ar ôl cinio fel arfer. Y nod yw sicrhau bod plant yn cael fflworid ar eu dannedd yn rheolaidd. Byddant yn cael brws dannedd a phast dannedd fflworid a dangosir y ffordd orau iddynt i frwsio eu dannedd eu hunain. Yn ogystal, byddant yn cael pecyn i fynd gartref gyda nhw sy'n cynnwys brws dannedd, past dannedd, taflen wybodaeth i rieni a sticer. Mae'r rhaglen yn cynnwys technegau atal megis selio tyllau a farnisio fflworid hefyd. Y



nod yw addysgu plant am iechyd eu dannedd heddiw, gan helpu i leihau problemau deintyddol mwy difrifol yn nes ymlaen yn ystod eu bywydau.

Ar hyn o bryd, mae pedair ar ddeg ysgol yn y Fro yn cymryd rhan yn y rhaglen brwsio dannedd.

Cynhaliwyd lansiad rhaglen Cynllun Gwên yn Ne Cymru ar 30 Ionawr 2009, pan fu Prif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan, yn ymweld â'r Ysbyty Deintyddol yn Ysbyty Prifysgol Cymru yng Nghaerdydd.

**Dinah Channing**

Rheolwr Iechyd Deintyddol

Cynllun Gwên

Ffôn: 029 20211495

e-bost:

[dinah.channing@cardiffandvale.wales.nhs.uk](mailto:dinah.channing@cardiffandvale.wales.nhs.uk)

## Byw gyda Dyspracsia

Fy enw i yw Simon, rydw i'n 14 oed ac mae gen i ddyspracsia a dyslecsia. O flaen fy ngliniadur, ceir hen adroddiad ysgol ac mae ei ddarllen yn brofiad eithaf diflas, catalog o fethiannau: nid yw'n gallu pedlo treic; nid yw'n gallu taflu, dal neu gicio pêl; nid yw'n gallu torri gan ddefnyddio siswrn, gwneud posau jigso, dilyn cyfarwyddiadau, cau ac agor ffasinau syml, gwisgo ei hun .... mae'n tueddu i syrthio dros ei draed; dim llaw blaenaf (yn llawchwith ac yn llawdde); "mae'n ymateb mewn ffordd ddramatig i unrhyw synau sydyn, goleuadau sy'n fflachio ac ati.... (bron ei fod yn dweud "dylid ei anfon yn ôl a gofyn am ad-daliad"). Wel, nid yw'n hawdd dioddef dyspracsia, gan bod pêl-droed yn BOBLOGAIDD IAWN yn ein diwylliant ac yn orfodol mewn ysgolion.

Mae dyspracsia yn tarddu o gyflwr niwrolegol lle na fydd yr ymennydd yn prosesu gwybodaeth yn gywir. Mae'n arwain at sefyllfa lle nad yw gwybodaeth yn cael ei chyfleu'n gywir neu'n llawn. Mae'n effeithio ar y broses o gynllunio'r hyn y byddwn yn ei wneud ac mae'n gysylltiedig gyda phroblemau o ran amgyffred, iaith a meddwl. Mae gwrywod bedair gwaith yn fwy tebygol o gael eu heffeithio ac mae'n ymddangos ei fod yn rhedeg mewn teuluoedd. Gall orgyffwrdd â dyslecsia, syndrom Aspergers ac ADHD. Mae pobl y mae ganddynt ddyspracsia yn gallu bod yn orsensitif neu ddim yn ddigon sensitif i oleuadau sy'n fflachio, cerddoriaeth uchel (disgos), gweadau penodol, tymheredd a blas. Mae'n gyflwr a fydd gan rywun am oes. Mae lefel ddeallusrwydd mwyafrif yr unigolion y mae ganddynt ddyspracsia yn gyffredin neu'n uwch na'r cyffredin ac maent yn aml yn rhugl, bydd ganddynt syniadau arloesol ond byddant yn ei chael hi'n anodd eu cyfleu ar bapur.

### Peidiwch Digaloni

1. Nid oes yn rhaid i ddyspracsia niweidio'ch bywyd cyfan e.e. cefais gymorth unigol gan fy athro anghenion arbennig, a oedd yn fy annog i ddefnyddio fy ngliniadur, ac ar ôl hyn, llwyddais i wneud cynnydd mawr.
2. Cyn bo hir, bydd gwasanaeth cwnsela yn cael ei ddarparu ym mhob ysgol uwchradd gan Barnados
3. Mae adran ieuencid Gr p Cymorth Dyspracsia y Fro yn fodlon cynnig hyfforddiant i lywodraethwyr ac mae wedi darparu hyfforddiant mewn nifer o leoliadau. Felly gofynnwch am hyn.
4. Mae Gr p Cymorth Dyspracsia y Fro yn adnodd sydd ar gael i chi ei ddefnyddio, felly mae croeso i chi gysylltu â ni ar ein llinell gymorth sef 01446 738945, neu droi at ein gwefan sef [www.vdsg.org.uk](http://www.vdsg.org.uk).

**Simon Woodward**

Grŵp Cymorth Dyspracsia y Fro



## NGfL Cymru

Mae NGfL Cymru yn parhau i ddatblygu adnoddau rhyngweithiol sy'n cynorthwyo'r cwricwlwm ar gyfer y rhai 3-19 oed, gan gynnwys adnoddau galwedigaethol, ac ar hyn o bryd, mae'n darparu dros 3000 o adnoddau.

Datblygwyd y deunyddiau sydd ar gael ar NGfL Cymru ar hyn o bryd trwy gyfrwng nifer o wahanol ffynonellau. Mae'r ffynonellau yn cynnwys athrawon unigol, rhwydweithiau o athrawon, cydweithio rhwng sefydliadau ac adnoddau newydd a gomisiynwyd er mwyn llenwi bwlch a nodwyd.

Cawsant eu datblygu yn benodol er mwyn cynorthwyo anghenion y Cwricwlwm yng Nghymru, Y Cwricwlwm Cymreig a darpariaeth ddwyieithog adnoddau.

Y llynedd, rhoddwyd pwyslais ar adnoddau gan gynnwys:

- Cyfres o adnoddau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen
- CA1, Mathemateg, Datrys Problemau
- Cymraeg Ail Iaith
- CA3, Ymchwilio Mathemateg
- Adnoddau Daearyddiaeth TGAU gan Hodder Education
- Cyfres o adnoddau ar gyfer Hanes CA3
- Set o weithgareddau arfarnu rhyngweithiol ar gyfer CA2 a CA3 Cerddoriaeth
- Cyfres o adnoddau siarad a gwrando rhyngweithiol wedi'u seilio ar faterion sy'n ymwneud â'r unfed ganrif ar hugain ac sy'n cynnwys gweithgareddau sgiliau meddwl
- Cymdeithaseg UG, E-lyfr

Mae profiad wedi dangos bod gwaith sylweddol yn cael ei wneud mewn ysgolion i ddatblygu adnoddau ac o fewn NGfL Cymru, rydym wedi mynd ati i geisio hwyluso trefniadau i rannu'r adnoddau hyn dros y blynyddoedd.

Un o'r ffyrdd cyffrous o ddatblygu adnoddau yw gwneud gwaith uniongyrchol gydag athrawon unigol a thrwy gyfrwng ein Cronfa Adnoddau Arloesol (CAA), gallwn gynnig rhywfaint o gyllid i gynorthwyo'r broses ddatblygu. Yn aml, caiff prosiectau CAA eu seilio ar ddeunyddiau a allai fod yn bodoli eisoes, ond y mae angen gwneud rhywfaint o waith ychwanegol arnynt er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'w rhannu ar y We Fyd Eang.

Un maes cyffrous arall o fewn NGfL Cymru yw cofrestru. Er bod hyn ar sail wirfoddol, bydd cofrestru yn golygu bod modd i athrawon fanteisio ar rai gwasanaethau ychwanegol a fydd yn eu galluogi i flaenoriaethu'r ffordd y byddant yn manteisio ar NGfL Cymru. Mae'r nodwedd hon yn galluogi athrawon i storio eu ffefrynnau 'NGfL Cymru' er mwyn iddynt allu troi at yr adnoddau hynny yn uniongyrchol pryd bynnag y byddant yn troi at y wefan, mae'n cynnig y cyfle i droi at fforymau trafod ar-lein a diweddariadau e-bost sy'n eu hysbysu o'r hyn sy'n digwydd yn y maes y mae ganddynt ddiddordeb ynddo. Yn ogystal, ceir cyfleuster er mwyn cyhoeddi cyflenwadau Newyddion RSS y mae modd eu cynnwys mewn systemau eraill, gan gynnwys Gwefannau AAL ac Ysgolion.

Mawr obeithiwn y byddwch o'r farn bod NGfL Cymru yn adnodd defnyddiol, ac y byddwch yn annog eich ysgol i'w ddefnyddio mewn ffordd effeithiol. Gallai fod o gymorth wrth gynorthwyo'ch ysgol wrth iddi weithio trwy'r Fframwaith Hunan-adolygiad TGCh hefyd.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu sylwadau, mae croeso i chi gysylltu ag NGfL Cymru ar 029 2026 5177 neu [info@ngfl-cymru.org.uk](mailto:info@ngfl-cymru.org.uk)

Mae modd dod o hyd i NGfL Cymru trwy droi at <http://www.ngfl-cymru.org.uk>

# Diweddariad AD Cyngor y Fro i Lywodraethwyr

Yn ddiweddar, mae nifer o faterion sy'n ymwneud â chyflogaeth wedi effeithio ar ysgolion. Byddwn yn parhau i ddarparu gwybodaeth berthnasol i Benaethiaid, ond mae'r wybodaeth ganlynol yn cynnig crynodeb byr.

## Darpariaethau Ymestyn yr Hawl i ofyn am drefniadau Gweithio Hyblyg

Ym mis Ebrill 2009, estynnwyd yr hawl i ofyn am drefniadau gweithio hyblyg er mwyn cynnwys:

- Rhieni plant 16 oed ac iau a phlant anabl dan 18 oed y maent yn cael y Lwfans Byw i'r Anabl.
- Gofalwyr sy'n gyfrifol am berthnasau neu rywun sy'n byw yn yr un cyfeiriad â nhw.

Mae gan y cyflogeion cymwys hyn yr hawl i ofyn am drefniadau gweithio hyblyg. Nid yw'n hawl i weithio dan drefniadau hyblyg. Fodd bynnag, rhaid i gyflogwr roi ystyriaeth ddifrifol i'r cais, a'r unig adeg y bydd modd iddynt ei wrthod yw os ceir rhesymau busnes eglur a phenodedig dros wneud hynny. Mae'r weithdrefn ffurfiol yn cynnwys cais ysgrifenedig gan y cyflogai a'r angen am gyfarfodydd ac ymateb ysgrifenedig gan y cyflogwr. Mae penaethiaid wedi cael canllawiau am y ddarpariaeth hon ac mae canllaw i gyflogeion ar gael i staff hefyd.

## Dogfen Newidiadau i Gyflog ac Amodau Athrawon Ysgol

### Llenwi Bwlch yn Anaml

Ers y Cytundeb Cenedlaethol ar Godi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith ym mis Ionawr 2003, gwelwyd symud cynyddol wrth i ysgolion neilltuo rhagor o amser i athrawon a phenaethiaid i ganolbwyntio ar addysgu a dysgu. Roedd Dogfen 2009 yn cyflwyno'r gofyniad i Benaethiaid sicrhau mai anaml y byddai'n ofynnol i athrawon lenwi bwlch ar ran cydweithwyr absennol, ac ar adegau annisgwyl yn unig. Er mwyn hwyluso hyn, gofynnwyd i Benaethiaid:

- Ymgynghori calendr blynyddol ac amserlen yr ysgol gyda chynrychiolwyr staff ac undebau
- Ymgynghori ynghylch a llunio polisi sy'n cynorthwyo'r gofyniad sy'n sicrhau mai anaml y bydd gofyn i athrawon lenwi bwlch, gyda chynrychiolwyr staff ac undebau unwaith eto. Yn ogystal, cynghorwyd ysgolion i feddu ar bolisi er mwyn gallu ymateb i geisiadau absenoldeb arbennig
- Meddu ar systemau er mwyn lleihau'r angen i athrawon lenwi bwlch cydweithwyr absennol (e.e. manteisio ar staff cymorth, trefniadau cyflenwi ac ati)
- Monitro'r amser y bydd yn rhaid i athrawon ei dreulio yn llenwi bwlch cydweithwyr absennol yn ystod amgylchiadau annisgwyl, a sicrhau bod hyn yn cael ei rannu rhwng staff mewn ffordd gyfartal

Erbyn yr adeg hon, disgwylir bod pob ysgol wedi cydymffurfio gyda'r gofyniad, ac mae'n debygol bod y Corff Llywodraethu wedi cadarnhau'r polisi.

## Fetio a Gwahardd (Awdurdod Diogelu Annibynnol)

Cyflwynir y cynllun Fetio a Gwahardd ar 12 Hydref 2009. Bydd y system yn gwella'r trefniadau diogelu ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed, gan gyflwyno 2 gofrestr – un er mwyn diogelu plant ac un er mwyn diogelu oedolion. Y bwriad yw dwyn ynghyd yr holl wybodaeth berthnasol ynghylch unigolion sy'n gweithio gyda'r grwpiau hyn, a pharhau i ddiweddarau'r wybodaeth hon.

Dan y cynllun newydd, o fis Tachwedd 2010, bydd cyflogwyr yn cyflawni trosedd os byddant yn cyflogi unigolyn nad ydynt wedi cofrestru gydag ISA. Estynnir cwmmpas y rhai y bydd y cynllun yn delio gyda nhw, a dosbarthir y gweithgareddau naill ai fel rhai

'rheoledig' – gweithgarwch sy'n cynnwys cyswllt gyda phlant neu oedolion agored i niwed cyflogedig neu wirfoddol ar sail gyson, dwys a/neu dros nos neu swyddi diffiniedig penodol.

neu

'a reolir' – gweithgarwch sy'n cynorthwyo gwaith mewn lleoliad gyda grwpiau sy'n agored i niwed. Gallai enghreifftiau gynnwys unigolyn sy'n gweithio i sefydliad y mae modd iddynt droi at gofnodion sensitif yn aml.

Cyflwynir y cynllun ar sail dyddiadau allweddol cyfredol:

### Hydref 2009

Ni ddylai cyflogwyr gyflogi unrhyw unigolyn sy'n ymddangos ar restr yr unigolion a waharddwyd, a fydd yn cael ei ddarganfod fel rhan o'r CRB estynedig

Bydd angen cynnal archwiliad CRB estynedig ar gyfer nifer uwch o rolau (bydd hyn yn cynnwys unrhyw unigolyn sy'n gweithio (am dâl neu'n ddi-dâl) mewn gweithgarwch rheoledig.

Bydd gan gyflogwyr ddyletswydd i gyfeirio unigolyn a allai beri risg i grwpiau sy'n agored i niwed, i ISA.

Bydd cyflogwyr sy'n cyflogi unigolion a waharddwyd yn fwriadol, yn destun cosbau troseddol.

### Gorffennaf 2010

Bydd modd i gyflogwyr danysgrifio i statws cofrestru ISA unigolyn o'r dyddiad hwn. Bydd yr holl rai newydd sy'n cyflawni rolau sy'n cael eu cynnwys o fewn y broses, a'r rhai sy'n symud swydd i ddarparwr newydd o fewn y sectorau hyn, yn gallu cofrestru gydag ISA (nid yw hyn yn ofyniad dan y gyfraith ar hyn o bryd). Pan fydd unigolyn yn gwneud cais am gofrestru ISA, byddant yn cael eu monitro yn barhaus. Os byddant yn cael eu trosglwyddo i restr o unigolion a waharddwyd, hysbysir y cyflogwr.

**Tachwedd 2010**

Bydd y gofyniad cyfreithiol i benodiadau llywodraethwyr a staffio newydd i gofrestru gydag ISA ac i gyflogwyr archwilio eu statws, yn dod i rym. Ni fydd modd i unigolyn weithio, hyd yn oed dan oruchwyliaeth, nes bydd y cyflogwr yn cael cadarnhad ynghylch cofrestriad ISA.

**Ionawr 2011 – Gorffennaf 2015**

Bydd y gweithlu a'r llywodraethwyr presennol yn cael eu cyflwyno i'r cynllun.

Ar hyn o bryd, mae LICC yn adolygu'r rheoliadau a'r ffordd ffordd y byddant yn berthnasol i lywodraethwyr yng Nghymru, a phan fyddwn yn cael arweiniad pellach, byddwn yn darparu gwybodaeth wedi'i diweddarau. Mae gwybodaeth bellach ar gael trwy droi at [www.isa.gov.org.uk](http://www.isa.gov.org.uk)

**Sue Alderman**

Prif Swyddog Personél

Ffôn: 01446 709870

E-bost: [STAlderman@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:STAlderman@valeofglamorgan.gov.uk)

## Gwobrau Iechyd ar gyfer Plant 2009 – Ysgol Iau Babyddol St Helen's

Mae'r gwobrau Iechyd ar gyfer Plant cenedlaethol, a gyflwynir eleni mewn partneriaeth â Sefydliad Prydeinig y Galon, yn rhaglen ardderchog sy'n gwobrwyo arfer da ymhlith prosiectau a mentrau ar draws y DU, y maent yn gwneud gwahaniaeth go iawn i iechyd plant.

Mae cymaint o sylw yn cael ei roi yn y wasg i iechyd ein plant, diffyg iechyd ein plant, iechyd ein plant yn y dyfodol, ac ati. Ni roddir fawr ddim o sylw neu ddim sylw o gwbl i'r gwaith arloesol ac effeithiol y mae miloedd o bobl yn ein cymunedau yn ei wneud er mwyn helpu ein plant i fyw bywydau hapusach ac iachach.

Er y rhoddwyd pwyslais mawr ar faterion unigol megis gordewdra plant, mae iechyd ein plant yn fater llawer ehangach mewn gwirionedd. Mae gwobrau Iechyd ar gyfer Plant yn cynnwys yr holl faterion hyn, gan annog mentrau sy'n helpu plant i ddysgu gwerth yr holl agweddau ar eu hiechyd, i ymgeisio.

Roedd rhaglen 2009 yn cynnwys pum categori:

- Bwyta'n Iach
- Gweithgarwch Corfforol
- Iechyd Personol a Chymdeithasol
- Iechyd Emosiynol a Lles
- Diogelwch a Dinasyddiaeth

Ar sail y categorïau uchod, estynnwyd gwahoddiad i sefydliadau swyddogol, gwirfoddol a chymunedol sy'n cynnal mentrau ac sy'n ceisio gwella iechyd plant a phobl ifanc, i ymgeisio.

Llwyddodd Ysgol Iau Babyddol St Helen's yn y Barri i drechu cannoedd o ymdrechion rhagorol, gan sicrhau canmoliaeth yn y categori "Diogelwch a Dinasyddiaeth". Cychwynnodd yr ysgol ar gynllun eu Cwrs Cymorth Cyntaf mewn Argyfwng, Heart Start, yn ystod y gwanwyn 2008. Mae'r cwrs yn cynnwys DVD, taflenni gwaith, cynlluniau gwarsi a llyfrynau ar gyfer gweithgarwch adolygu y disgyblion. Caiff pob gwarsi ei seilio ar sefyllfa sy'n ymddangos ar y DVD, yna, trafodir hon a chynhelir gweithgareddau ymarferol. Bu'r disgyblion yn gwyllo'r DVD ac yna, buont yn ymarfer wrth asesu sefyllfa, galwadau ffôn brys, ystum adfer, delio gyda gwaedu a phan geir amheuaeth bod rhywun yn dioddef trawiad ar y galon. Yn ystod y cam nesaf, bu modd i ni adolygu'r camau gweithredu hyn cyn symud ymlaen i ddadebru ceg wrth geg.

Roedd y ffaith bod modelau ar gael yn golygu bod modd i'r disgyblion weithio mewn grwpiau, gan gymryd eu tro wrth asesu'r sefyllfa, galw am help, a rhoi cychwyn ar CPR, wrth i'w gr p gynghori ac asesu eu perfformiad. Bu'r plant yn frwdfrydig yn eu gwaith ac roeddent yn awyddus iawn i drafod digwyddiadau cysylltiedig. Fe'u gwelwyd yn meithrin eu hyder wrth i'r gwarsi symud yn eu blaen, ac roedd y mwyafrif yn cyflwyno'u gwaith cartref mewn pryd! Yn aml, roedd plant tawelach yn disgleirio yn ystod y gwarsi hyn, a bu'r gwaith gr p yn fodd i helpu'r llai abl gan nad oedd y broses yn cynnwys unrhyw gystadleuaeth.

Ar ddiwedd y cwrs, dyfarnwyd tystysgrifau ar gyfer pob lefel. Fel arfer, cyflwynir y gwobrau hyn gan y Pennaeth ond yn ystod y tro cyntaf, gwelwyd yr hyfforddwr parafeddyg yn ymweld â'r ysgol gyda ffotograffydd o'r wasg – cyffro mawr! Byddai'r plant a'r athrawon yn cymeradwyo'r cynllun hwn, a mawr obeithiwn y bydd yn achub bywyd ryw ddiwrnod.

Ers i'r cynllun gychwyn, hyfforddwyd pedwar athro i gyflwyno Heart Start, gan sicrhau ei ddyfodol yn yr ysgol, ac mae 115 o ddisgyblion wedi pasio.

Am ragor o wybodaeth am wobrau Iechyd ar gyfer Plant ac ynghylch cymryd rhan yn y rhaglen y flwyddyn nesaf, trowch at [www.hfkawards.co.uk](http://www.hfkawards.co.uk)

**Rachel Jones**

Cydlynnydd Ysgolion Iach yn Flaenorol – Ysgol Iau Babyddol St Helen's

# Aelodaeth Pwyllgor Rheoli VSGA 2009-10

Mae Pwyllgor Rheoli VSGA yn cynnwys 15 o lywodraethwyr a'r ddau aelod etholedig sy'n Gynrychiolwyr Rhieni-Lywodraethwyr (PGR) o'r sector Cynradd ac Uwchradd.

Ar hyn o bryd, ceir dau le gwag ar y Pwyllgor Rheoli. Os hoffai unrhyw lywodraethwr gael eu cyfethol i un o'r lleoedd hyn, dylech gysylltu â Jeremy Morgan yn GSU.

Bydd llywodraethwr yn cael ei ethol yn Gynrychiolydd Rhieni-Lywodraethwyr (PGR) (Cynradd) ar y Pwyllgor yn ystod Tymor y Gwanwyn pan gynhelir etholiad.

Os hoffai unrhyw lywodraethwr fod yn aelodau o Bwyllgor Rheoli VSGA, mae croeso iddynt fynychu cyfarfodydd fel arsylwyr.

Rhif	Teitl	Blaenlythyren	Cyfenw	Ysgol
1	Mr	N	Craggs	Ysgol Gynradd C/W Gwenfô
2	Cyng Mr	C	Elmore	Ysgol Gynradd Colcot ac Ysgol Gynradd Holton
3	Mrs	G	Evans	Ysgol Iolo Morganwg
4	Mr	G	Fogden	Ysgol Erw'r Delyn
5	Mrs	M	Gibbs	Meithrinfa Tregatwg ac Ysgol Llanilltud Fawr
6	Mrs	S	Hodges	Ysgol Sant Baruc ac Ysgol Gwaun y Nant
7	Mr	K	Ingram	Ysgol Ashgrove ac Ysgol Gynradd Albert
8	Cyng Mr	G	Kemp	Ysgol Gyfun y Bont-faen ac Ysgol Gynradd Y Rhws
9	Mrs	A	Males	Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Gyfun St Cyres
10	Dr	M	Price	Ysgol R/C St Richard Gwyn
11	Mr	G	Price-Stephens	Ysgol Gynradd Llandochau
12	Mr	D	Treharne	Ysgol Gwaun y Nant
13	Cyng Mr	M	Wilson	Ysgol Gynradd Albert ac Ysgol Gynradd Victoria
14				Gwag
15				Gwag
PGR				Gwag
PGR	Mr	P	Lewis	Ysgol Gyfun y Bont-faen

## Mewn cysylltiad â Chyngor Bro Morgannwg

Uned Cymorth i Lywodraethwyr  
Cyngor Bro Morgannwg,  
Gwasanaeth Gwella Ysgolion  
Provincial House, Kendrick Road, Y Barry CF62 8BF

### Manylion cyswllt:

#### John Sparks

Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr  
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820  
E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk

#### Jeremy Morgan

Swyddog Uwch Cymorth i Lywodraethwyr  
Ffôn: 01446 709108 Ffacs: 01446 701820  
E-bost: JerMorgan@valeofglamorgan.gov.uk



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn â ni, sef [VSGA@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:VSGA@valeofglamorgan.gov.uk)  
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

#### VSGA

Uned Cymorth i Lywodraethwyr  
Cyngor Bro Morgannwg  
Gwasanaeth Gwella Ysgolion  
Provincial House  
Kendrick Road, Barry CF62 4BF